Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymunedol Bro Banw

**Stryd Fawr**
**Rhydaman**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA18 2NS**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Bro Banw

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymunedol Bro Banw |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 487 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 415 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin | 17 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 33.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 27.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 8.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 5.5% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2017 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/01/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 29/01/2024 |
| Mae gan yr ysgol saith dosbarth addysgu arbenigol i ddisgyblion o bob cwr o'r awdurdod lleol. Yn ogystal, mae gan yr ysgol dri dosbarth prif ffrwd cyfrwng Cymraeg a 13 dosbarth cyfrwng Saesneg. Ychydig bach iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd. | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Bro Banw yn cynnig amgylchedd dysgu croesawgar, meithringar a chynhwysol i ddisgyblion. Mae arweinwyr a staff yn gosod diddordebau'r plentyn yn ganolog i bopeth maen nhw'n ei wneud, sy'n ymgorffori eu gweledigaeth, sef 'Annog pob plentyn i ddisgleirio'. Cynigiant gefnogaeth gadarn i ddisgyblion sy'n mynychu'r dosbarthiadau cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a'r ddarpariaeth addysgu arbenigol. Mae'r cwricwlwm blaengar a chyffrous, sy'n seiliedig ar ymholi, yn ysgogi diddordeb disgyblion a'u brwdfrydedd tuag at ddysgu. Er bod llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau cymharol wan, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu gydag amser.

Mae'r pennaeth yn arwain yn rhagorol, sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar waith yr ysgol. Mae ethos tîm cryf ar draws yr ysgol yn hyrwyddo diwylliant lle mae staff yn cael eu hannog i gymryd risgiau yn eu haddysgu a darparu'r profiadau dysgu gorau i'w disgyblion. Mae arweinwyr a staff yn deall anghenion disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned leol yn dda. Maent yn darparu cymorth lles rhagorol i'r holl ddisgyblion ac yn annog rhieni, yn enwedig y rhai sy'n newydd i'r ysgol, i ddod yn rhan o gymuned yr ysgol trwy brosiectau blaengar. Mae arweinwyr yn sicrhau diwylliant diogelu cadarn yn yr ysgol. Maent yn hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd ac yn monitro pob absenoldeb yn ofalus. Fodd bynnag, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn gymharol isel o hyd.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw cymorth y staff i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn dosbarthiadau prif ffrwd ac yn nosbarthiadau'r ddarpariaeth addysgu arbenigol. Mae'r tîm o gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (cydlynwyr ADY) yn cynnig arweinyddiaeth arbennig o gadarn i helpu staff i weithredu amrywiaeth o strategaethau ac ymyriadau effeithiol er mwyn helpu disgyblion i wella'u medrau, eu lles a'u hagweddau at ddysgu. Maent yn gweithio'n dda gydag amrywiaeth o bartneriaid ac asiantaethau i wella'r ddarpariaeth i ddisygblion ag ADY, yn enwedig y rhai ag anghenion mwy cymhleth. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd cryf yn ystod eu camau datblygiadol ac o'u mannau cychwyn unigol.

Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu cyfoethog sy'n darparu cwricwlwm ysgogol a hynod ddifyr i ddisgyblion. Mae hyn yn caniatáu i ddisgyblion ddefnyddio amrywiaeth o fedrau, gan gynnwys eu medrau rhifedd, llythrennedd a meddwl i ddatrys problemau bywyd go iawn. Yn ogystal, mae'r pwyslais cadarn sy'n cael ei osod ar ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'u 'cynefin' ac o hanes a threftadaeth Cymru, yn ategu dysgu'r disgyblion yn effeithiol iawn. Er nad yw'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd, maent yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau Cymraeg yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae medrau Cymraeg disgyblion mewn dosbarthiadau cyfrwng Saesneg wedi'u tanddatblygu.

## Argymhellion

A1 Gwella presenoldeb

A2 Gwella safonau Cymraeg mewn dosbarthiadau cyfrwng Saesneg

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael ag argymhellion yr arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn gysylltiedig â datblygu cwricwlwm cyfoethog a chyffrous, seiliedig ar ymholi, a sut mae’n cefnogi disgyblion a’u teuluoedd trwy brosiectau cymunedol arloesol, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau’r ysgol gyda medrau is nag y byddid yn ei ddisgwyl fel arfer ar gyfer cam eu datblygiad. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion, gan gynnwys y rhai sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a’r rhai sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY), yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth. Mae bron bob un o’r disgyblion yn y darpariaethau addysgu arbenigol yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau unigol.

Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion iau yn gwrando’n astud ac yn dilyn cyfarwyddiadau syml yn dda. Maent yn rhyngweithio’n effeithiol gydag oedolion ac yn datblygu medrau cyfathrebu cadarn. Erbyn Blwyddyn 6, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn fedrus ac yn cyfrannu’n effeithiol at drafodaethau dosbarth, gan fynegi eu barn yn glir ac yn aeddfed. Mae disgyblion â SIY yn defnyddio iaith gynyddol gymhleth gyda disgyblion eraill, er enghraifft i ddisgrifio rysáit o Namibia fel rhan o waith y Dewiniaid Gwastraff.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion meithrin a derbyn yn mwynhau gwrando ar storïau a’u hailadrodd i’w ffrindiau ac i oedolion. Maent yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddarllen ac yn dod yn gyfarwydd â chynnwys llyfrau, er enghraifft wrth ailadrodd hanes y Tri Mochyn Bach. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 2 yn ddarllenwyr hyderus sy’n defnyddio’u medrau darllen yn dda i ddatgodio seiniau llythrennau ac yn defnyddio pwyslais yn dda wrth ddarllen i eraill. Mae llawer o’r disgyblion hŷn yn darllen yn hyderus mewn amrywiol gyd-destunau, gyda disgyblion yn y dosbarth cyfrwng Cymraeg yn darllen yn rhugl yn y Gymraeg a’r Saesneg. Maent yn defnyddio tôn llais ac atalnodi yn effeithiol i ddangos eu dealltwriaeth yn dda. Gydag amser, mae disgyblion yn datblygu eu medrau darllen lefel uwch yn effeithiol, er enghraifft trwy ddod i gasgliadau a rhagfynegi yn aeddfed wrth ddarllen amrywiaeth o destunau ffuglen a ffeithiol.

Mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn datblygu’n gyson gydag amser. Mae’r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau echddygol manwl sicr sy’n eu paratoi ar gyfer ysgrifennu cynnar. Ar draws y dosbarthiadau Dysgu Sylfaen, mae llawer o

ddisgyblion yn ysgrifennu darnau disgrifiadol a diddorol yn fwyfwy cywir ac yn defnyddio iaith er mwyn creu effaith, er enghraifft wrth ddefnyddio mapiau stori i adrodd hanes chwedl leol y Twrch Trwyth. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dysgu amrywio eu geirfa a phatrymau eu brawddegau wrth ysgrifennu. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn ysgrifennu i safon dda mewn amrywiaeth o gyd-destunau gan ddefnyddio enwau, berfau, ansoddeiriau ac adferfau yn effeithiol i ychwanegu at eu gwaith.

Ar y cyfan, mae gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu am Gymru a dysgu Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn y dosbarthiadau cyfrwng Saesneg yn gwneud cynnydd priodol wrth ddefnyddio Cymraeg achlysurol, yn enwedig yn ystod sesiynau croeso'r bore. Maent yn ymateb yn addas i ysgogiadau a chwestiynau cyfarwydd ac yn ymuno'n frwdfrydig â chaneuon a rhigymau. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, mae mwyafrif ohonynt yn defnyddio ystod gyfyngedig o eirfa ac yn deall geiriau ac ymadroddion sylfaenol yn y dosbarth ac yn ystod gwersi Cymraeg. Ar y cyfan, fodd bynnag, nid yw disgyblion yn y dosbarthiadau cyfrwng Saesneg yn gwneud digon o gynnydd wrth ddysgu deall a siarad Cymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu'u medrau rhifedd ac maent yn mwynhau cymhwyso hyn i ddatrys problemau bywyd go iawn. Er enghraifft, dros gyfnod o wythnosau, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn mesur lindys y gwnaethant eu darganfod yng ngardd yr ysgol ac wedyn yn lluniadu'r lindys wrth raddfa fel rhan o'u gwaith ar gylchoedd bywyd. Mae disgyblion iau yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau ymarferol sy'n ategu datblygiad eu geirfa fathemategol a'u medrau rhif. Nodwedd nodedig o'r ysgol yw gallu'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn i ddefnyddio'u medrau rhifedd yn effeithiol iawn mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan drafod eu dulliau gyda soffistigeiddrwydd cynyddol yn aml, er enghraifft wrth gyfrifo cost trydan a llafur ar gyfer eu prosiect menter.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol da ac yn eu defnyddio ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus. Mae disgyblion iau yn defnyddio amrywiaeth o apiau yn dda ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys creu cronfeydd data i fesur madarch o uchder a phwysau gwahanol. Yn ogystal, mae disgyblion Blwyddyn 3 yn dangos medrau codio cadarn gan ddefnyddio micro-ddidau i gefnogi eu gwaith ar y 'Diafol a'r Cawr'. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio'u medrau digidol gyda chymhwysedd cynyddol, er enghraifft trwy greu taenlen i gofnodi a chyflwyno gwybodaeth am effeithiau mewnfudo ar Gymru.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau creadigol yn llwyddiannus. Mae disgyblion iau yn mwynhau paentio a defnyddio'r llwyfan a'r theatr bypedau awyr agored, er enghraifft i actio stori'r Cawr a'r Goeden Ffa. Mae disgyblion hŷn yn creu dilyniannau dawns syml yn llwyddiannus i gynrychioli boddi Capel Celyn ac i ddehongli boddi Tryweryn ym 1955.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau corfforol yn dda trwy amrywiaeth eang o brofiadau pwrpasol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn frwdfrydig am weithgareddau corfforol yn yr ardal awyr agored, gan gynnwys sesiynau beicio ac ymarfer corff. Mae disgyblion hŷn yn datblygu'u medrau corfforol yn dda trwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol a chlybiau chwaraeon ar ôl ysgol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u hagweddau at gadw'n heini. Mae disgyblion yn y ddarpariaeth addysgu arbenigol yn mwynhau'r

egwyliau symud rheolaidd sy'n rhan o'u diwrnod ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion yn y Dosbarth Glas yn dawnsio ac yn dilyn caneuon sy'n atgyfnerthu eu dealltwriaeth o rannau o'r corff.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron bob un o'r disgyblion yn falch o'u hysgol ac yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn. Maent yn rhoi pwys ar y perthnasoedd gwaith cadarnhaol maen nhw'n eu datblygu gyda staff, sy'n rhoi anogaeth, cyfeiriad a chymorth iddynt. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ffynnu yn amgylchedd meithringar yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn gwybod gyda phwy i siarad i gael help a chymorth pan fydd ei angen arnynt ac maent yn hyderus y bydd pobl yn gwrando arnynt ac yn eu parchu. Maent yn teimlo eu bod yn cael gofal ac maent yn gwerthfawrogi'r sesiynau lles dyddiol i drafod eu hemosiynau a'u hagweddau at ddysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda o gwmpas yr ysgol ac maent yn gwrtais a chroesawgar tu hwnt i oedolion ac ymwelwyr. Maent yn dangos gofal ac ystyriaeth tuag at ei gilydd ac yn cydweithredu'n effeithiol, gan ddangos parch tuag at gyfraniadau disgyblion eraill yn y dosbarth. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt synnwyr cadarn o dda a drwg ac yn deall pwysigrwydd cefnogi hawliau plant. Mae ethos cynhwysol, cyfeillgar a meithringar yr ysgol yn cael ei adlewyrchu yn agweddau disgyblion tuag at ei gilydd, yn enwedig wrth groesawu disgyblion newydd i'r ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion newydd sydd â Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, yn cefnogi ei gilydd yn dda trwy grŵp y 'Dewiniaid Gwastraff', lle maent yn dysgu am eu diwylliant, eu hiaith a'u traddodiadau ei gilydd.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o fwyta'n iach, yfed digon a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 4 yn cymryd rhan mewn prosiect gyda chyflenwr bwyd lleol i wneud eu byrbryd iach eu hunain i'w samplu a'i ddosbarthu i'w cymheiriaid a'r gymuned ehangach. Mae bron bob un o'r disgyblion yn mwynhau defnyddio'r ardaloedd awyr agored i ategu eu dysgu a'u lles, er enghraifft trwy gymryd cyfrifoldeb am fwydo a gofalu am eu hanifeiliaid ar y safle Dysgu Sylfaen. Mae disgyblion iau yn cadw'n weithgar amser brecwast trwy reidio'u beiciau ac mae disgyblion yn nosbarthiadau'r ddarpariaeth addysgu arbenigol yn cymryd rhan mewn egwyliau symud yn rheolaidd trwy gydol y dydd.

Ar draws yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau pendant a chryf at ddysgu. Maent yn ymhél yn gadarnhaol â'r amrywiaeth o brofiadau dysgu cyffrous ac ysgogol y mae'r ysgol yn eu cynnig. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymdawelu'n gyflym ac yn datblygu hyder a gwydnwch wrth ddyfalbarhau â'u gwaith neu eu chwarae. Maent yn datblygu'n dda fel dysgwyr galluog ac uchelgeisiol, gan siarad yn frwdfrydig am eu bywyd ysgol a'u gwaith gyda dealltwriaeth ac aeddfedrwydd. Er enghraifft, maent yn defnyddio eu medrau meddwl a rhifedd yn dda wrth drafod eu syniadau a'u strategaeth i sefydlu eu menter o fewn y gyllideb a roddir. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cydweithredu'n llwyddiannus mewn grwpiau ac mewn parau, ac mae llawer ohonynt yn gwneud cyfraniadau cadarnhaol at drafodaethau dosbarth.

Mae llawer o ddisgyblion yn esbonio pwysigrwydd cynhwysiant ac amrywiaeth yn eu hysgol yn hyderus. Maent yn ymwybodol iawn o broblemau lleol a byd-eang ac maent yn deall pwysigrwydd gofalu am ei gilydd a helpu pobl mewn angen. Mae'r

rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn deall y cyfraniad y gallant ei wneud at eu cymuned ac maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau mentrus pwrpasol. Er enghraifft, maent yn tyfu llysiau yng ngardd yr ysgol i gyfrannu at fenter 'Bwyd i Bawb' yr ysgol.

Ar y cyfan, mae disgyblion yn datblygu eu rolau arwain yn briodol trwy amrywiaeth o grwpiau llais y disgybl sy'n cyfrannu'n dda at fywyd yr ysgol. Maent yn defnyddio eu gwybodaeth a'u medrau yn frwdfrydig i gefnogi pobl eraill; er enghraifft, mae grŵp y 'Tîm Technoleg' yn helpu eu cymheiriaid i ddatrys problemau TGCh. Er bod disgyblion sy'n aelodau o'r grwpiau llais y disgybl buddiol hyn yn cyfrannu'n dda at eu gwaith, nid ydynt bob amser yn cynnwys eu cymheiriaid yn llawn wrth wneud penderfyniadau.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn deall bod angen iddynt fod yn ofalus ac maent yn gwybod sut i gadw'u hunain yn ddiogel ar-lein. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn elwa o ystod eang o weithgareddau allgyrsiol i hyrwyddo'u lles corfforol a meddyliol, fel yr amrywiaeth o glybiau chwaraeon, y côr, y clwb dawnsio creadigol a dosbarthiadau i ddysgwyr Cymraeg.

Mae disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd dod i'r ysgol yn rheolaidd ac yn ymateb yn dda i'r wobr wythnosol i'r dosbarth y mae ei bresenoldeb wedi gwella orau. Er bod presenoldeb disgyblion wedi codi ychydig dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'n is na'r lefelau presenoldeb cyn y pandemig o hyd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw'r cyfoeth o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n cael eu cynnig i ddisgyblion. Mae arweinwyr a staff wedi cydweithio'n effeithiol i gynllunio a darparu cwricwlwm pwrpasol, blaengar ac ysgogol tu hwnt. Mae athrawon yn sicrhau cydbwysedd effeithiol rhwng addysgu uniongyrchol a dysgu ar sail ymholi yn fedrus. O ganlyniad, mae'r cwricwlwm yn darparu amrediad cynhwysfawr o brofiadau dysgu dilys i'r holl ddisgyblion.

Mae bron bob un o'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd helaeth i ddisgyblion gyfrannu at eu dysgu eu hunain, er enghraifft trafod eu syniadau ar ddechrau ac yn ystod cylchoedd ymholi neu unedau dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos cryn frwdfrydedd tuag at bob agwedd ar eu gwaith a chryn ddiddordeb ynddynt. Mae amrywiaeth o brofiadau cyfoethog, yn seiliedig ar ymholi yn helpu disgyblion i ddatblygu a chymhwyso eu medrau rhifedd, llythrennedd a meddwl i ddatrys problemau bywyd go iawn yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn aeddfed i gyfrifo'r cyfraniadau treth sy'n cael eu talu gan wahanol alwedigaethau, ac wedyn yn awgrymu syniadau diddorol am sut gallai'r Llywodraeth wario'r refeniw. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion mewn dosbarthiadau cyfrwng Saesneg ddatblygu'u defnydd o Gymraeg llafar.

Mae athrawon yn cynllunio dysgu eithriadol ar sail ymholi i gryfhau'r cysylltiadau â'r gymuned, gwella dealltwriaeth disgyblion o fyd gwaith a'u helpu i ddatblygu mentrau entrepreneuraidd yn hynod effeithiol. Er enghraifft, fe wnaeth disgyblion Blwyddyn 3 gydweithredu â chyngor y dref i ddod o hyd i ateb i broblem gwm cnoi o gwmpas ardal yr ysgol, a sut gallant gael gwared ar fagiau plastig defnydd untro. Fel rhan o'r

gwaith hwn, datblygodd disgyblion nwyddau ecogyfeillgar newydd a defnyddiont eu medrau yn dda i lansio'u busnesau diddorol eu hunain. Mae defnyddio ymwelwyr a phartneriaethau gyda busnesau lleol yn cefnogi'r gwaith hwn yn effeithiol iawn ac yn helpu i godi uchelgeisiau gyrfaol disgyblion at y dyfodol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio egwyddorion dysgu sylfaen yn dda i gynllunio amrywiaeth dda o brofiadau dysgu a chwarae ymarferol, boddhaus i ddisgyblion iau. Mae'r defnydd cyson o brofiadau dilys o fywyd go iawn yn helpu i hoelio sylw disgyblion ar eu dysgu a datblygu'u medrau a'u gwybodaeth yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 1 yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn hyderus i adeiladu tŷ i'r tri mochyn bach, gan fesur amrywiaeth o ddeunyddiau naturiol trwy ddefnyddio pren mesur a mesuriadau safonol yn gywir.

Nodwedd ragorol o gwricwlwm yr ysgol yw'r pwyslais cryf ar ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'u cynefin ac o hanes a threftadaeth Cymru. Er enghraifft, mae disgyblion Meithrin yn defnyddio mapiau'n hyderus i ymweld â Rhydaman i adnabod nodweddion naturiol a nodweddion dynol arbennig. Mae disgyblion Blwyddyn 5 yn cymhwyso'u medrau digidol yn effeithiol i greu animeiddiadau diddorol am hanes Taliesin ac mae disgyblion Blwyddyn 4, ynghyd â'u cymheiriaid yn y dosbarth cyfrwng Cymraeg, yn datblygu'u medrau ysgrifennu yn llwyddiannus i greu adolygiadau teithio ar-lein manwl yn dilyn taith ar Reilffordd Mynydd Brycheiniog.

Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau difyr sy'n datblygu'n llwyddiannus ddealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth a'u hagweddau at bobl o gefndiroedd gwahanol sy'n byw yng Nghymru, a'r byd ehangach. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn ysgrifennu dadleuon ystyriol o blaid ac yn erbyn croesawu ffoaduriaid i Gymru ac yn amlinellu'r cyfleoedd y maen nhw'n dod â nhw i'w hysgol.

Mae gan yr holl staff berthnasoedd gwaith hynod effeithiol â disgyblion ac maen nhw'n trin y disgyblion gyda charedigrwydd a pharch. Mae hyn yn meithrin amgylchedd cadarnhaol a chefnogol ar gyfer dysgu yng nghymuned yr ysgol. Maent yn darparu cymorth rhagorol i ddisgyblion ag anghenion ychwanegol yn y dosbarthiadau prif ffrwd ac yn nosbarthiadau'r ddarpariaeth addysgu arbenigol. Mae bron bob un o'r athrawon yn sicrhau bod gan eu gwersi gyflymder effeithiol ac maent yn annog disgyblion i gydweithio er mwyn cwblhau tasgau a datrys problemau. Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn defnyddio holi yn fedrus i ymestyn dealltwriaeth a meddwl y disgyblion.

Mae'r holl staff yn sicrhau bod amgylcheddau'r ystafelloedd dosbarth yn fannau bywiog a threfnus sy'n helpu disgyblion i gymryd rhan yn gadarnhaol mewn gwersi a dathlu eu dysgu yn briodol. Maent yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer dysgu ac ymddygiad disgyblion ac yn sicrhau bod profiadau dysgu a chwarae yn adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol. Mae hyn yn nodwedd gref o'r addysgu, gan ei bod yn sicrhau bod disgyblion yn defnyddio'u gwybodaeth flaenorol a'u medrau meddwl yn effeithiol yn eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth adeiladol i ddisgyblion i'w helpu i wella'u gwaith. Maent yn creu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gydweithio a myfyrio'n llwyddiannus ar eu dysgu. Ar draws yr ysgol, mae bron bob un o'r athrawon yn defnyddio gwybodaeth o arsylwadau ac asesiadau i gynllunio'r camau nesaf mewn dysgu'r disgyblion yn effeithiol ac yn drylwyr.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, ofalgar a thosturiol tu hwnt, lle mae lles pawb yn flaenoriaeth i arweinwyr a staff. Mae bron bob agwedd ar fywyd yr ysgol ar gael yn gyfartal i ddisgyblion a darperir gofal, cymorth ac arweiniad rhagorol i'r holl ddisgyblion, yn enwedig y rhai sydd ag ADY. Mae staff yn darparu amrywiaeth eang o strategaethau ac ymyriadau effeithiol i helpu disgyblion i wella'u medrau, eu lles a'u hagweddau at ddysgu. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi sefydlu dosbarth anogaeth yn yr ysgol i helpu disgyblion i ennill y medrau a'r priodweddau angenrheidiol i ailintegreiddio'n llwyddiannus i ddosbarthiadau prif ffrwd.

Mae arweinwyr, athrawon a staff cymorth yn nosbarthiadau'r ddarpariaeth addysgu arbenigol yn gweithio'n hynod effeithiol gydag amrywiaeth o bartneriaid ac asiantaethau, gan gynnwys cyfraniadau gan seicolegwyr addysg, therapyddion iaith a lleferydd a therapyddion galwedigaethol. Mae hyn yn gwella'u dealltwriaeth gynhwysfawr o ofynion ac anghenion cymhleth y disgyblion. O ganlyniad, mae staff yn darparu cymorth cynnar a phriodol i ddisgyblion, sy'n arwain at gynnydd cryf iawn yn natblygiad y disgyblion ac o'u mannau cychwyn.

Mae tîm y cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (cydlynwyr ADY) yn defnyddio'u gwybodaeth helaeth yn effeithiol i roi hyfforddiant proffesiynol o ansawdd uchel i staff ar draws yr ysgol. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu proffiliau un dudalen a chynlluniau datblygu buddiol mewn partneriaeth â disgyblion, rhieni a phartneriaid allanol, sy'n canolbwyntio'n dda ar union anghenion y disgyblion. Mae systemau trylwyr a chadarn ar waith i helpu nodi a monitro disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol mewn dosbarthiadau prif ffrwd i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd cryf o gymharu â'u mannau cychwyn.

Nodwedd nodedig o ddarpariaeth yr ysgol yw'r trefniadau eithriadol i gefnogi datblygiad cymdeithasol, moesol a diwylliannol disgyblion. Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn dylanwadu ar yr hyn maen nhw'n ei ddysgu, a sut, yn ogystal â'u hannog i drafod ystod o faterion cyfoes pwysig. Er enghraifft, astudiodd disgyblion hŷn y llyfr 'The boy who sits at the back of the class' er mwyn dylanwadu ar drafodaeth ar bwnc mewnfudo ac i ystyried y materion moesegol yn gysylltiedig â'r protestiadau diweddar yn Llanelli. Yn ogystal, mae'r ysgol yn cynnig cymorth helaeth i ddisgyblion a theuluoedd â SIY a'r rhai sy'n newydd i'r ysgol, trwy amrywiaeth eang o fentrau rhagorol. Er enghraifft, mae caffi'r ysgol yn annog rhieni a disgyblion newydd i goginio ar y cyd, gwella'u medrau iaith a datblygu ffrindiau newydd. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar eu lles ac mae'n helpu i ddatblygu perthnasoedd cadarn â'r ysgol o'r dechrau'n deg.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau arwain trwy amrywiaeth o grwpiau llais y disgybl. Yn ogystal, mae mentrau fel prosiect 'Bwyd i Bawb' yn helpu i feithrin eu dealltwriaeth o broblemau lleol a byd-eang, gan gynnwys anghydraddoldeb a thlodi bwyd. Er enghraifft, mae'r swyddog prosiect teuluol wedi gweithio'n llwyddiannus gyda phartneriaid lleol i helpu'r ysgol i sefydlu siop 'talu fel y gallwch'. Mae hyn yn helpu disgyblion a'u teuluoedd i ddod yn hyddysg am fwyd ac i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad a lles disgyblion. Hefyd, mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth eang o glybiau ar ôl ysgol, gan gynnwys gwyddbwyll, dawns, rygbi, codio ac animeiddio, sydd ar gael i bob disgybl. Mae staff yn olrhain pwy sy'n

mynd i'r clybiau hyn i sicrhau nad oes dim i rwystro disgyblion sy'n dymuno mynd iddynt.

Trwy addoli ar y cyd effeithiol ac amrywiol weithgareddau'r cwricwlwm, mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd cryf i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion moesegol ac ymwybyddiaeth ysbrydol a chrefyddol. Mae staff yn rhoi pwyslais cryf ar hawliau'r plentyn ac yn hyrwyddo'r hawliau'n llwyddiannus trwy arferion dyddiol ac arddangosfeydd. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'r gwaith pwysig iawn hwn, yn enwedig y disgyblion yng ngrŵp llais y disgybl ar barchu hawliau.

Mae arweinwyr yn gweithio'n dda gyda'r swyddog cynhwysiant teuluol i sefydlu amrywiaeth o weithdrefnau priodol i fonitro, olrhain a chefnogi presenoldeb disgyblion, sy'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau presenoldeb. Maent yn deall yn dda pam nad yw ychydig ddisgyblion yn dod i'r ysgol yn gyson, gan weithio'n dda gyda nhw a'u teulu i'w helpu i wella eu presenoldeb. Fodd bynnag, mae cyfraddau presenoldeb yn parhau i fod islaw lefelau cyn-Covid ac mae'r bwlch rhwng disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r disgyblion eraill yn rhy uchel o hyd.

Mae'r holl staff yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad disgyblion ac maent yn defnyddio amrywiaeth eang o strategaethau priodol i sicrhau eu bod yn gwybod beth a ddisgwylir ohonynt. Mae gan yr ysgol ddiwylliant diogelu cryf, effeithiol, sydd wedi'i hen sefydlu. Mae arweinwyr yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth fuddiol i'r holl staff ynghylch diogelu, sy'n eu helpu i adnabod a chofnodi problemau yn briodol. Maent yn gweithio'n effeithiol gydag amrywiaeth o asiantaethau i ddarparu cymorth hanfodol i ddisgyblion a theuluoedd.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth dosturiol, gefnogol a hynod effeithiol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar fywyd disgyblion a'u teuluoedd. Mae wedi datblygu ethos tîm cryf, sy'n sicrhau bod yr holl staff yn cydweithredu'n llwyddiannus i sicrhau bod gweledigaeth yr ysgol, sef 'Annog pob plentyn i ddisgleirio', yn ganolog i'w gwaith. Mae'r weledigaeth bwrpasol hon, a grëwyd gan arweinwyr, staff, disgyblion a rhanddeiliaid eraill, yn canolbwyntio'n llwyddiannus ar ddarparu ymdeimlad cadarn o gydweithio er budd yr holl ddisgyblion. Mae arweinwyr yn cyfleu'r weledigaeth hon yn effeithiol, sy'n sicrhau bod pawb yng nghymuned yr ysgol yn hoelio'u ffocws ar gyflawni'r un nodau ac amcanion strategol.

Mae'r pennaeth ac arweinwyr eraill yr ysgol yn rhoi pwys ar waith yr holl staff ac yn cefnogi eu lles yn eithriadol o dda. Maent yn annog staff i fod yn flaengar, i gymryd risgiau a seilio'u haddysgu a'u cefnogaeth ar arfer effeithiol sy'n seiliedig ar ymchwil. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar weithredu Cwricwlwm i Gymru, Deddf ALNET a gwella addysgeg.

Mae arweinwyr a staff yn ymrwymo i feithrin a chynnal perthnasoedd gwaith effeithiol â disgyblion a rhieni o ddechrau eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn deall anghenion disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned leol yn dda iawn, ac yn cydweithio'n effeithiol tu hwnt i gefnogi eu hanghenion. O ganlyniad, mae'r ysgol yn cynnig amgylchedd dysgu croesawgar, cynhwysol a hapus i'r holl ddisgyblion a'u teuluoedd. Mae disgyblion yn falch iawn o'u hysgol ac yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu a'u lles.

Mae gan aelodau'r corff llywodraethol ddealltwriaeth ragorol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn cyfrannu'n effeithiol iawn at flaenoriaethau strategol yr ysgol. Mae cadeirydd y llywodraethwyr yn sicrhau bod y corff llywodraethol yn defnyddio medrau, gwybodaeth a phrofiad aelodau yn llawn ar draws amrywiaeth o feysydd. Mae llywodraethwyr yn ymgymryd â gweithgareddau monitro pwrpasol mewn partneriaeth ag arweinwyr yr ysgol, gan gynnwys teithiau dysgu ar y cyd, craffu ar lyfrau a gwrando ar ddysgwyr. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gryf o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella, ac mae hyn yn caniatáu iddynt gefnogi a herio arweinwyr yn drylwyr. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac maent yn cefnogi arweinwyr i reoli adnoddau yn unol â blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r corff llywodraethol wedi cytuno ar gynllun addas gyda'r awdurdod lleol i fynd i'r afael â'r diffyg sydd wedi cronni eleni. Er bod adeiladau'r ysgol ar bob un o dri safle'r ysgol yn peri llawer o heriau, mae arweinwyr yr ysgol a staff yn gwneud pob ymdrech i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael cystal â phosibl.

Mae arweinwyr yn defnyddio amrywiaeth ddefnyddiol o offer hunanwerthuso i amlygu cryfderau a meysydd i'w gwella yn dda. Mae prosesau monitro pwrpasol yn sicrhau bod arweinwyr, staff ac aelodau'r corff llywodraethol i gyd yn cymryd rhan mewn gwerthuso gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae staff yn gweithio fesul tri i arsylwi a gwerthuso ansawdd eu haddysgu ei gilydd. Yn ogystal, mae aelodau'r corff llywodraethol yn ymuno ag arweinwyr i werthuso agweddau ar y ddarpariaeth, gan gynnwys defnyddio oedolion sy'n galluogi dysgu yn nosbarthiadau'r ddarpariaeth addysgu arbenigol. Mae'r prosesau hyn yn helpu i hyrwyddo deialog ac anogaeth adeiladol rhwng yr holl randdeiliaid, ynghyd ag amlygu beth sy'n gweithio'n dda a beth allai fod 'yn well fyth os'. Mae arweinwyr yn defnyddio prosesau rheoli perfformiad yn briodol i gynorthwyo staff i helpu amlygu cyfleoedd datblygu proffesiynol personol pwrpasol ynghyd â blaenoriaethau adrannol neu ysgol gyfan ar gyfer gwella.

Mae'r ysgol wedi nodi ystod addas o flaenoriaethau gwella, sy'n canolbwyntio'n dda iawn ar addysgu a dysgu, lles disgyblion ac arweinyddiaeth. Mae prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella effeithiol yr ysgol yn sicrhau bod arweinwyr wedi gwella llawer o agweddau pwysig ar waith yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, maent wedi gweithio'n eithriadol o dda gyda staff i gyflwyno cwricwlwm hynod flaengar a chyffrous sy'n ennyn sylw disgyblion yn hynod effeithiol yn eu dysgu.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn dda iawn i sicrhau bod profiadau dysgu cyfoethog, ynghyd â chymorth llythrennedd a rhifedd, yn helpu disgyblion agored i niwed i wneud cynnydd cryf. Mae'r pennaeth, arweinwyr a staff yn angerddol am gefnogi dysgwyr agored i niwed a'u teuluoedd. Maent wedi datblygu 'Datganiad Prawfesur Tlodi' pwrpasol sy'n amlinellu amrediad cynhwysfawr o brosiectau a mentrau blaengar i helpu lleihau effaith tlodi ar addysg a lles disgyblion. Er enghraifft, mae pob disgybl yn cael cymorth â chostau teithio ar gyfer ymweliadau addysgol, ailgylchu gwisgoedd ysgol a chefnogi teuluoedd trwy fenter 'Bwyd i bawb'.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle y bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle y bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  03/04/2024